CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Rhwydwaith Arweinwyr Data Cymru: 2 Tachwedd 2021

Cofnodion cyfarfod y Rhwydwaith Arweinwyr Data Cymru ar 2 Tachwedd 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Ionawr 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 18 Ionawr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

1. Yn bresennol

2. Cylch Gorchwyl Drafft ac aelodaeth arfaethedig

3. Cymunedau data

4. Diweddariad ar ddata ar gyfer y DU gyfan

5. Dyddiad y cyfarfod nesaf

6. Unrhyw fater arall

7. Crynodeb o gamau gweithredu

# 1. Yn bresennol

## Yn bresennol

- Llywodraeth Cymru - Pennaeth Rhannu Data a Moeseg
- YDG Cymru/SAIL
- Trafnidiaeth Cymru (TrC)
- Llywodraeth Cymru - Pennaeth Ystadegau Gweithlu Ysgolion
- Llywodraeth Cymru - Prif Swyddog Digidol (Cadeirydd)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
- Llywodraeth Cymru - Cyfarwyddwr Technoleg, Digidol a Thrawsnewid
- Llywodraeth Cymru - Pennaeth Data a Daearyddiaeth
- Gofal Cymdeithasol Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
- Llywodraeth Cymru - Pennaeth Polisi a Safonau Data
- Data Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

### Cyflwynwyr/sylwedyddion

- Llywodraeth Cymru
- Gartner
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
- Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

## 2. Cylch Gorchwyl Drafft ac aelodaeth arfaethedig

Gofynnwyd i'r cylch gorchwyl gael ei ddiweddaru i ddweud yn benodol y bydd y grŵp yn canolbwyntio ar y defnydd dadansoddol a gweithredol o ddata.

Ac eithrio'r diwygiad hwn, cymeradwywyd y cylch gorchwyl drafft.

Ni chynigiwyd ychwanegiadau na diwygiadau i'r aelodaeth yn ystod y cyfarfod.

## 3. Cymunedau data

Rhoddodd Data Cymru ddiweddariad ar gynlluniau i sefydlu rhwydwaith o gymunedau data a fydd yn dod â phobl ynghyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i rannu syniadau, heriau, problemau a datrysiadau.

Roedd awgrymiadau ar gyfer cymunedau data posibl gan y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- technoleg data gyffredin
- moeseg data
- cyfathrebu data
- cynwysoldeb data

Cytunodd y grŵp i anfon unrhyw awgrymiadau eraill, ynghyd ag arweinwyr posibl ar gyfer cymunedau penodol, ymlaen i Data Cymru.

## 4. Diweddariad ar ddata ar gyfer y DU gyfan

Tynnwyd sylw'r rhai a oedd yn bresennol at y darnau canlynol o waith a wneir ar hyn o bryd ar lefel y DU, ac anogwyd hwy, lle bo'n briodol, i ymateb:

- **Data: cyfeiriad newydd (GOV.UK)**
- **Fframwaith monitro a gwerthuso'r Strategaeth Ddata Genedlaethol (GOV.UK)**
- **Adroddiad y Tasglu Data Cynhwysol: Gadael neb ar ôl – Sut y gallwn fod yn fwy cynhwysol yn ein data? (Awdurdod Ystadegau'r DU)**

Cynghorwyd y rhai a oedd yn bresennol i gysylltu â **DataReformConsultation@dcms.gov.uk** ynghylch unrhyw ymholiadau sydd ganddynt am yr ymgynghoriad ar gyfundrefn diogelu data'r DU.

Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod ein data yn gynhwysol a chafwyd trafodaeth ynghylch atebion i rai o'r heriau a wynebir wrth gasglu data a sut y gallai cysylltu data ddarparu datrysiad.

## 5. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu ar gyfer mis Ionawr/Chwefror 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 6. Unrhyw fater arall

Ar hyn o bryd, cynhelir Dosbarth Meistr Data i Uwch Weision Sifil ledled y DU, sydd wedi'i anelu at uwch arweinwyr heb gefndir data. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ynddo ac ar hyn o bryd, mae gennym rai lleoedd ar gael y gellir eu cynnig i arweinwyr o gyrff eraill o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

## 7. Crynodeb o gamau gweithredu

| Rhif | Camau | Perchnogion |
|---|---|---|
| 1.1 | Diweddaru'r cylch gorchwyl i ddweud yn benodol y bydd y grŵp yn canolbwyntio ar y defnydd dadansoddol a gweithredol o ddata | Llywodraeth Cymru |
| 1.2 | Anfon unrhyw ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau dilynol i aelodaeth y grŵp ymlaen i Lywodraeth Cymru | Pob aelod |
| 1.3 | Anfon awgrymiadau ar gyfer cymunedau data posibl ymlaen i: **Suzanne.draper@data.cymru** | Pob aelod |
| 1.4 | Y rhai a oedd yn bresennol i nodi ac enwebu arweinwyr cymunedau data posibl a'u hanfon ymlaen i: **Suzanne.draper@data.cymru** | Pob aelod |
| 1.5 | Y rhai a oedd yn bresennol i awgrymu eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd dilynol | Pob aelod |
| 1.6 | Llywodraeth Cymru i greu a chynnal cofnod o eitemau agenda yn y dyfodol | Llywodraeth Cymru |
| 1.7 | Rhannu manylion y Dosbarth Meistr Data â'r rhai a oedd yn bresennol | Llywodraeth Cymru |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Rhif | Camau | Perchnogion |
|---|---|---|
| 1.8 | Y rhai a oedd yn bresennol i enwebu cyfranogwyr posibl ar gyfer y Dosbarth Meistr Data | Pob aelod |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cyfarfod y Rhwydwaith Arweinwyr Data Cymru: 2 Tachwedd 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-rhwydwaith-arweinwyr-data-cymru-2-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.